# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Valley Lodge**

**Ffordd Llanarmon**
**Llanferres**
**Yr Wyddgrug**
**CH7 5TA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Valley Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Roberts Homes North Wales Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Chwefror 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n gynnes ac yn groesawgar. Cânt eu cefnogi gan staff caredig a gofalgar sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n fedrus. Mae'r staff yn dilyn cynlluniau personol manwl sy'n dangos sut y dymuna'r bobl i'w gofal a'u cymorth gael eu darparu ac maent yn adnabod y bobl yn dda. Caiff prosesau priodol eu dilyn er mwyn cefnogi'r bobl â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau am eu gofal eu hunain Mae'r bobl yn mwynhau cydberthnasau da â'r staff sy'n eu cefnogi, ac mae'r perthnasau yn hapus â'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn y cartref.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod rhaglen barhaus o ailaddurno yn mynd rhagddo. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel ac maent yn cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod nifer digonol o staff yn gweithio bob amser er mwyn cynnal parhad y gofal.  Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd yn dda ac yn rhoi gwybod i'r Unigolyn Cyfrifol fel mater o drefn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn mynychu'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn cefnogi'r rheolwr ac i oruchwylio bod y cartref yn cael ei redeg yn ddidrafferth. Mae trefniadau llywodraethu priodol ar waith ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhoi gwybod am ei ganfyddiadau o adolygiadau ar ansawdd y gofal i'r darparwr fel rhan o wella a datblygu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

## Llesiant

Gall y bobl wneud dewisiadau am y ffordd i fyw eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff i symud yn rhydd o gwmpas y cartref fel y dymunant. Mae opsiynau bwydlen ar gael bob dydd i bobl ddewis ohonynt, a chaiff y bobl eu cefnogi i godi ac i wisgo pan fyddant yn barod. Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol i'r bobl ddewis treulio eu hamser ynddynt, neu gallant dreulio amser yn gorffwys yn eu hystafelloedd os byddant yn dymuno gwneud hynny. Caiff ystafelloedd y bobl eu personoli â lluniau, ornamentau a gwrthrychau sy'n bwysig iddynt. Mae'r darparwr yn casglu adborth gan bobl a'u perthnasau am eu safbwyntiau a'u barn am y cartref a'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol. Mae cofnodion yn dangos bod gan y bobl yn gallu manteisio ar ofal a chyngor meddygol yn amserol. Caiff ymwelwyr eu hannog a chânt groeso yn y cartref a gwelsom ymwelwyr yn mwynhau eu cinio gyda'r bobl. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn hapus iawn â'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae yna staff sy'n cydgysylltu'r gweithgareddau i'r bobl; mae'r rhain yn amrywio o gerddoriaeth a chanu, i ddiddanwyr allanol a gweithgareddau crefft. Gwelsom bobl yn mwynhau'r gweithgareddau hyn yn ystod ein harolygiad. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod teuluoedd yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau sy'n dod drwy bosteri gwybodaeth a chyfarfodydd rheolaidd, a chânt eu hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau eu hunain. Caiff y bobl eu cefnogi gydag ymwelwyr sy'n ymweld y tu allan i'r cartref. Mae'r perthnasau yn cael eu cefnogi'n dda gan y gwasanaeth. Cânt eu hannog i fynychu boreau coffi i gwrdd â'i gilydd a chânt gynnig cymorth un i un gan y rheolwr os byddai'n well ganddynt hynny.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'n sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar sut i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau yn hyn o beth ac yn teimlo'n hyderus yn mynd at y rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol pe bai ganddynt bryderon. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod prosesau priodol yn cael eu dilyn ar gyfer y bobl â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth eu hunain. Maent yn sicrhau y gall y bobl fynd at weithwyr proffesiynol eirioli pan fo'n ofynnol a gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac yn cael y gofal a'r cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau dymunol. Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o gyfarpar a chyfleusterau yn y cartref i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'n sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar. Mae'r cartref mewn cyflwr da, a chaiff gwiriadau iechyd a diogelwch priodol eu cynnal mewn modd amserol.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y rheolwr brosesau cyn asesu cadarn ar waith er mwyn sicrhau y gellir bodloni anghenion y bobl cyn eu derbyn i'r cartref. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys y bobl eu hunain, eu perthnasau, asesiadau proffesiynol, ac asesiadau risg unigol er mwyn gwneud hyn. Unwaith y caiff addasrwydd y cartref ei gadarnhau, mae'r rheolwr yn sicrhau bod y cynlluniau personol ysgrifenedig sy'n manylu sut y dylai anghenion gofal a chymorth y bobl gael eu bodloni ar waith yn barod cyn iddynt gyrraedd. Gwelsom fod y cynlluniau hyn yn drylwyr ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r gweithwyr gofal am y ffordd i gefnogi'r bobl. Caiff y cynlluniau eu hadolygu fel mater o drefn a chânt eu diweddaru mewn modd amserol wrth i newidiadau i anghenion y bobl ddigwydd. Mae'r cynlluniau yn bennaf yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar annog pobl i gynnal y sgiliau a'r annibyniaeth sydd ganddynt eisoes.

Caiff y bobl ofal da gan staff cyfeillgar, caredig a gwybodus, ac mae ganddynt gydberthnasau da â nhw. Roedd y gweithwyr gofal yn gallu egluro anghenion a dewisiadau'r bobl i ni. Mae'r staff asiantaeth sy'n cefnogi'r bobl un i un yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi ac yn rhoi gofal priodol iddynt. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y bobl yn cael cymorth sy'n unol â'u cynlluniau personol. Gwelsom fod y bobl wedi'u gwisgo'n dda ac yn edrych yn dda, ac roedd y staff yn sgwrsio'n barhaus â'r bobl wrth iddynt eu cefnogi. Gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau â chymorth gan y staff, a oedd yn sylwgar ac yn eu hannog. Roedd y bobl yn gwenu ac yn ymgysylltu yn ystod y rhyngweithio hyn â'r staff a'r preswylwyr eraill. Gwelsom fod y cartref yn defnyddio offer a chyfarpar sy'n addas ar gyfer pobl â dementia, gan gynnwys byrddau difyrru ac anifeiliaid animatronig, ar gyfer y rhai sy'n eu mwynhau.

Mae cofnodion yn dangos bod prosesau a gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau da yn y cartref. Gwelsom dystiolaeth o weithwyr meddygol proffesiynol yn cynnal arolygon rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion meddygol cyfredol yn cael eu diwallu'n ddigonol. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau i reoli risg o heintiau ac i hyrwyddo arferion hylendid yn y cartref, y mae pob aelod o'r staff yn eu dilyn. Mae cofnodion yn dangos bod staff domestig yn y cartref yn ddyddiol, a nodwyd gennym ei fod yn lân ac yn daclus drwyddo. Gwelsom fod y staff yn defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol yn briodol.

## Yr Amgylchedd

Gellir rhoi sicrwydd i'r bobl bod gan ddarparwr y gwasanaeth systemau cadarn ar waith i nodi a lleihau risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Mae gan y darparwr set cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i arwain y staff ac mae'n sicrhau y caiff y rhain eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd fel sy'n ofynnol. Mae cofnodion yn dangos y caiff cyfarpar a chyfleusterau eu gwasanaethau a'u cynnal a'u cadw drwy'r cartref, gan gynnwys profi a gwasanaethu cyfarpar trydanol a systemau larwm tân. Mae asesiadau risg unigol a chartref cyfan priodol ar waith mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch.

Mae darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi yn y gwaith o gynnal a chadw'r cartref. Mae'r cartref yn gynnes ac yn ddiogel, ac mae wedi'i addurno'n fodern a chartrefol. Mae sawl ardal gymunedol ar gyfer cymdeithasu ac mae'r rhain yn cynnwys digon o seddi cyfforddus i'r bobl eu defnyddio. Mae rhai ardaloedd eistedd tawelach ar gyfer y rhai sydd am gael hynny. Mae'r ardaloedd bwyta yn cynnwys byrddau a chadeiriau o wahanol feintiau i annog y bobl i fwyta gyda'i gilydd. Gwelsom y bobl yn defnyddio'r ardal fwyta ar y llawr gwaelod ar gyfer gweithgareddau celf a chrefft Nadolig. Mae rhai ardaloedd o'r cartref yn cael eu hailaddurno i gynnwys addurniadau sydd o ddiddordeb ac yn darparu gweithgareddau i'r bobl â dementia sy'n cerdded â phwrpas. Mae'r tiroedd a'r ardaloedd eistedd yn yr awyr agored yn hygyrch i'r bobl drwy'r ardaloedd cymunedol. Byddai'r gerddi yn elwa ar ychydig o waith diweddaru ac adnewyddu ond maent yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac yn daclus. Gwelsom ychydig o arwyddion dwyieithog yn cael eu harddangos yn y cartref i helpu i gyfeirio'r bobl drwy'r adeilad.

Mae ystafelloedd unigol y bobl wedi'u dodrefnu â'r hyn sydd ei angen arnynt ac maent yn cael eu glanhau'n ddyddiol. Gwelsom eu bod wedi'u dodrefnu yn yr un arddull modern a chartrefol fel gweddill y cartref, gydag eitemau personol y bobl yn cael eu harddangos. Mae angen ailaddurno rhai o'r ystafelloedd; dywedodd y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol bod y gwaith wedi'i gynllunio.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Gellir rhoi sicrwydd i'r bobl bod gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu da a'i fod yn goruchwylio'r cartref a sut y caiff ei redeg. Mae'r rheolwr yn cwblhau set o archwiliadau cadarn yn rheolaidd i fonitro sut y caiff y gofal ei ddarparu ledled y cartref; caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn eu rhoi i'r Unigolyn Cyfrifol mewn cyfarfodydd rheoli rheolaidd a chaiff camau eu cymryd mewn modd amserol i ddatrys materion wrth iddynt godi. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn aml i gefnogi'r rheolwr ac yn cynnal cofnodion da o sut y maent yn goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a ddarperir ddwywaith y flwyddyn, gan gynnwys adborth gan y bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol er mwyn gwneud hyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhoi eu casgliadau i'r darparwr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y datblygiadau a'r gwelliannau sy'n ofynnol yn y gwasanaeth yn cael eu gwneud. Mae set cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau i arwain y staff yn eu gwaith ac i gynnal gofal o ansawdd da yn y cartref. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio'n dda gyda'r rheoleiddiwyr a'r comisiynwyr;  mae'r adborth gan gomisiynwyr am y cartref yn gadarnhaol.

Gall y bobl fod yn sicr bod y darparwr yn sicrhau lefelau da o staff medrus ym mhob rhan o'r cartref. Caiff hyn ei gefnogi gan y cofnodion a welsom, gan gynnwys rotas.  Mae rhai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i gefnogi'r bobl un i un, ond mae'r rheolwr yn trefnu'r un staff asiantaeth bob tro y mae eu hangen er mwyn sicrhau parhad gofal i'r bobl. Mae pob aelod newydd o'r staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn cael eu fetio'n drylwyr. Maent yn cyflawni cyfnod sefydlu cadarn sy'n cynnwys hyfforddiant a gwirio eu cymwyseddau. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant parhaus ar amrywiaeth o byncíau sy'n berthnasol i anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r rheolwr yn monitro'r gydymffurfiaeth â hyfforddiant yn agos, yn ogystal â chofrestriadau'r staff â chyrff rheoliadol a phroffesiynol a gwiriadau fetio parhaus. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr ac yn cael goruchwyliaeth yn rheolaidd. Gwnaethant ddweud wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ato ac mae'r tîm yn cyfathrebu'n dda. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn ystyried y staff asiantaeth fel rhan o'u tîm hefyd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio yn y cartref. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn aelodau o'r tîm sydd wedi bod yn gweithio yno ers amser hir, gyda blynyddoedd o brofiad a gwybodaeth am y cartref a'r bobl sy'n byw yno.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/01/2024